# FFORYMAU MYNEDIAD LLEOL YNG NGHYMRU



## Beth yw Fforymau Mynediad Lleol?


**Mae Fforymau Mynediad Lleol (FfMLl) wedi eu cychwyn yng Nghymru o dan ddeddf seneddol i roi cyngor i awdurdodau lleol, awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â gwella mynediad cyhoeddus i dir yn eu hardal ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored ac er mwyn mwynhau'r ardal.**

**Wrth roi'r cyngor yma mae'n rhaid i'r Fforymau Mynediad Lleol ystyried anghenion rheoli tir a'r dymuniad i warchod harddwch naturiol yr ardal.**

**Ceir 29 o Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru.**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales



## Beth maen nhw'n ei wneud?

Mae'r Fforymau, sy'n ethol eu cadeiryddion eu hunain, fel arfer yn cynnal tua 4-6 o gyfarfodydd bob blwyddyn. Mae croeso i'r cyhoedd fynychu pob cyfarfod (ar wahân i eithriadau prin).

Ers eu ffurfio yn 2002/03, mae'r Fforymau wedi ystyried ystod eang o faterion. Mae ganddynt nifer o gyfrifoldebau ac maent wedi rhoi cyngor ar bob math o ddarpariaethau mynediad i gefn gwlad, gan gynnwys ar droed, ar gefn ceffyl ar feic a cherbydau oddi ar y ffordd.

Maent wedi treulio llawer o amser yn rhoi cyngor ar gynllunio a rheoli'r hawl 'mynediad agored' newydd ac ar wella'r rhwydwaith llwybrau cyhoeddus lleol.

Yn ogystal, maent wedi ystyried sut i fynd i'r afael â phroblemau megis difrod a achosir pan ddefnyddir cerbydau modur yn anghyfreithlon yng nghefn gwlad a'r gwrthdaro posibl rhwng mynediad a gwarchod natur.

I ddysgu mwy am y Fforymau Mynediad Lleol yn eich ardal chi, gallwch fynychu un o'u cyfarfodydd neu gael gafael ar gopi o'u hadroddiad blynyddol.

## Pwy sy'n penodi aelodau ac yn rhedeg y Fforymau?

Yn y Parciau Cenedlaethol, y Parc Cenedlaethol yw'r "awdurdod penodi"; mewn llefydd eraill, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol ydyw.  Os ydynt yn dymuno, gall awdurdodau sy'n penodi is-rannu eu hardal i greu mwy nag un Fforwm Mynediad Lleol, neu fe allant gytuno gyda'u cymdogion i greu Fforwm ar y cyd i gynnwys eu hardal gyfunol.

Mae'r awdurdod penodi yn dewis aelodau o blith y ceisiadau y mae'n eu derbyn.

Cyfrifoldeb yr awdurdod sy'n penodi yw sicrhau bod cydbwysedd i'w gael yn y Fforwm a bod y carfanau perthnasol yn cael eu cynrychioli.





## Pwy sy'n eistedd ar y Fforymau?

Mae aelodau Fforymau Mynediad Lleol yn eistedd fel unigolion, yn hytrach nag fel cynrychiolwyr unrhyw fudiad penodol.

Yn ôl y ddeddfwriaeth, mae'n ofynnol cael cydbwysedd rhesymol o aelodau sy'n cynrychioli'r anghenion canlynol:

- defnyddwyr tir mynediad a llwybrau cyhoeddus, a
- pherchnogion a deiliaid tir mynediad a thir y mae hawliau tramwy yn berthnasol iddo

Carfanau eraill sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal.

Mae gan Fforymau Mynediad Lleol rhwng 12 a 22 o aelodau. Nid ydynt yn cael tâl, ond cant dreuliau rhesymol.

## Sut ydw i'n dod yn aelod?

Mae Fforymau Mynediad Lleol fel arfer yn recriwtio bob tair blynedd.  Fodd bynnag, gall llefydd gwag godi ar unrhyw adeg.

Ni cheir unrhyw feini prawf penodol ar gyfer dod yn aelod, ond dylai aelodau fod wedi ymrwymo i swyddogaeth y Fforwm Mynediad Lleol i gynnig cyngor ar wella mynediad cyhoeddus, a dylent allu chwarae rhan lawn ym mhob agwedd ar waith y Fforwm, a bod yn fodlon gwneud hynny.


Fel arfer caiff aelodau eu dewis oherwydd eu gallu, drwy wybodaeth a phrofiad, i gynrychioli buddiannau o leiaf un o'r grwpiau defnyddwyr mynediad, y rheolwyr neu berchnogion y tir, neu faterion eraill sy'n berthnasol i fynediad megis cadwraeth neu dwristiaeth.

Byddai'n ddymunol i aelodau fod yn byw yn ardal y Fforwm, bod yn hynod o gyfarwydd â hi, neu fod â buddiannau eraill sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal.

Os hoffech chi gael eich ystyried ar gyfer dod yn aelod, a fyddech gystal â chysylltu ag ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol perthnasol.



## Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru






Mae gan bob Fforwm Mynediad Lleol ysgrifennydd sy'n gweithio i'r Parc Cenedlaethol neu i'r awdurdod lleol perthnasol. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, os ydych yn dymuno mynychu cyfarfod, derbyn adroddiadau blynyddol neu bapurau cyfarfodydd, neu os ydych eisiau holi ynghylch dod yn aelod, dylech gysylltu ag ysgrifennydd y Fforwm perthnasol.





## Sut i gysylltu ag ysgrifennydd eich Fforwm Mynediad Lleol

| Fforwm Mynediad Lleol | Awdurdod Penodi | Ffôn |
|---|---|---|
| Arfon & Dwyfor | Cyngor Gwynedd | 01286 672255 |
| Blaenau Gwent | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 01495 350555 |
| Sir Frycheiniog | Cyngor Sir Powys | 01597 826000 |
| Canol Bannau Brycheiniog | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 01874 620484 |
| Dwyrain Bannau Brycheiniog | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 01874 620484 |
| Gorllewin Bannau Brycheiniog | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 01874 620484 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 01656 643643 |
| Caerffili | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 01443 815588 |
| Caerdydd | Cyngor Sir Caerdydd | 029 2087 2000 |
| Sir Gaerfyrddin | Cyngor Sir Caerfyrddin | 01554 747500 |
| Ceredigion | Cyngor Sir Ceredigion | 01545 570881 |
| Dwyrain Conwy | Cyngor Bwrdeistref Conwy | 01492 574000 |
| Sir Ddinbych | Cyngor Sir Ddinbych | 01824 706000 |
| Sir y Fflint | Cyngor Sir y Fflint | 01352 752121 |
| Ynys Môn | Cyngor Sir Ynys Môn | 01248 750057 |
| Merthyr Tudful | Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful | 01685 725000 |
| Sir Fynwy | Cyngor Sir Fynwy | 01633 644644 |
| Sir Drefaldwyn | Cyngor Sir Powys | 01597 826000 |
| Castell-nedd Port Talbot | Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot | 01639 763333 |
| Casnewydd | Cyngor Dinas Casnewydd | 01633 656656 |
| Sir Benfro | Cyngor Sir Penfro[1] ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 01437 764551 |
| Sir Faesyfed | Cyngor Sir Powys | 01597 826000 |
| Rhondda Cynon Taf | Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf | 01443 665565 |
| Gogledd Eryri | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 01766 770274 |
| De Eryri | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri[2] a Chyngor Gwynedd | 01766 770274 |
| Abertawe | Dinas a Sir Abertawe | 01792 636000 |
| Torfaen | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 01495 762200 |
| Bro Morgannwg | Cyngor Sir Bro Morgannwg | 01446 700111 |
| Wrecsam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 01978 292000 |

1. Mae'r ddau awdurdod penodi yn cylchdroi'r ysgrifenyddiaeth bob tair blynedd. Cysylltwch â Chyngor Sir Penfro o 1 Ebrill 2005 hyd 31 Mawrth 2008..

2. Cysylltwch ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â'r Fforwm Mynediad Lleol yma.

## Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru

Mae gan y Fforymau Mynediad Lleol gynrychiolydd etholedig ar y Fforwm Mynediad Cenedlaethol.

Yn wahanol i'r Fforymau Mynediad Lleol, nid yw'r Fforwm hwn yn un statudol, ac ni all unigolion wneud cais am ddod yn aelodau – mudiadau sy'n aelodau sy'n enwebu cynrychiolwyr.

Mae Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yn dod â chynrychiolwyr o blith tirfeddianwyr a rheolwyr, grwpiau defnyddwyr mynediad cefn gwlad, cyrff cyhoeddus a mudiadau'r sector gwirfoddol ynghyd i ystyried materion yn ymwneud â mynediad i gefn gwlad yng Nghymru. Mae'n rhoi cyngor i'r Cyngor Cefn Gwlad ac i Lywodraeth y Cynulliad. Y Cyngor Cefn Gwlad sy'n gweinyddu ac yn cadeirio'r Fforwm, ac mae pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.

Am ragor o wybodaeth, edrychwch ar wefan y Cyngor Cefn Gwlad www.ccw.gov.uk neu ffoniwch linell ymholiadau'r Cyngor ar 0845 130 6229.

Cynhyrchwyd y daflen gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar ran Fforymau Mynediad Lleol Cymru. 11/2005